Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhydygors
# Ffordd Llansteffan
# Johnstown
# Sir Gaerfyrddin
# SA31 3NQ

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Rhydygors

Ysgol arbennig breswyl a adeiladwyd yn bwrpasol yn nhref Caerfyrddin yw Ysgol Rhydygors. Ar hyn o bryd, mae 37 o ddisgyblion rhwng 7 ac 16 oed ar y gofrestr. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU), yn bennaf ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r awdurdod lleol, a daw ychydig ohonynt o awdurdodau lleol cyfagos. Daw bron pob un ohonynt o gefndiroedd Saesneg. Mae tua 54% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Mae ychydig o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safon y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â'r cyfartaleddau cenedlaethol, na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau o ddisgyblion dros amser, oherwydd natur anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2014. Ers hynny, penodwyd pum pennaeth, un ohonynt yn barhaol a phedwar o benaethiaid dros dro. Penodwyd y pennaeth dros dro presennol ym Medi 2018.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae llawer o ddisgyblion yn Ysgol Rhydygors yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn iddynt adael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob disgybl yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ystyriol o'i gilydd ac yn awyddus i helpu pobl eraill sy'n llai ffodus. Mae lefel y gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn gyson ac o ansawdd uchel, yn gyffredinol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn meithrin perthynas waith dda â'r staff, ond nid yw lleiafrif ohonynt yn ymddwyn yn ddigon da. Ym mron pob un o'r dosbarthiadau, mae athrawon yn cydweithio'n dda â hyfforddwyr dysgu i wella profiadau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer anghenion a galluoedd gwahanol disgyblion bob tro.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth weladwy a hawdd mynd ati, ond mae angen gwelliant ar agweddau ar arweinyddiaeth strategol. O ganlyniad, bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol o ran gwella'r agweddau allweddol hyn ar ei gwaith ymhen 12-18 mis.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau a gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion

A2 Gwella ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu

A3 Gwella ansawdd yr addysgu ac effeithiolrwydd asesu

A4 Cryfhau cynllunio ar gyfer gwelliant

A5 Gwella'r amgylchedd dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn, gan mwyaf, o wybodaeth bynciol. Erbyn iddynt adael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n ofalus ar eu hathrawon, eu cyfoedion ac oedolion, ac maent yn ymateb yn addas i faterion y maent yn eu codi. Dros gyfnod, maent yn magu’r hyder i ofyn cwestiynau ac ateb rhai disgyblion eraill, ac yn defnyddio termau pwnc yn briodol, ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau defnyddiol i drafodaethau mewn parau a grwpiau, ac yn rhannu eu syniadau â sensitifrwydd sy’n berthnasol i’r cyd-destun. Er enghraifft, pan fydd disgyblion cyfnod allweddol 3 yn ystyried y gwahaniaethau rhwng bwlio a thynnu coes, maent yn dangos empathi pan fydd disgyblion yn trafod eu hemosiynau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn aml yn defnyddio iaith amhriodol yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cael trafferth darllen. Dros gyfnod, mae llawer o’r disgyblion hyn yn dysgu sut i ddarllen testunau sylfaenol yn gywir ac yn datblygu mwynhad cynyddol o ddarllen ffuglen. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn darllen darnau o ‘Diary of a Wimpy Kid’ yn rhugl ac yn hyderus i Merlin, sef ci darllen yr ysgol. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen cyfarwyddiadau syml a thestunau ffeithiol yn annibynnol ac yn gywir. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau darllen mewn pynciau gwahanol ar draws y cwricwlwm, ac mae hyn yn llesteirio eu cynnydd wrth ddatblygu eu galluoedd yn y maes hwn.

O’u mannau cychwyn unigol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth o strwythurau sylfaenol ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig ac yn ymestyn y cysyniadau hynny’n briodol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio paragraffu’n gymwys i ysgrifennu am gymeriadau mewn nofel. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa bynciol yn gywir i labelu diagramau a siartiau, ac i roi atebion ysgrifenedig byr. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig disgyblion wedi’u datblygu’n ddigonol, yn bennaf oherwydd nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd nac adnoddau symbylol i wneud cynnydd cyson mewn pynciau gwahanol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn eu defnyddio’n sicr mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn cymhwyso ac yn datblygu’r medrau maent wedi eu dysgu yn eu gwersi mathemateg ymhellach i gynnal arbrofion a gweithgareddau ymarferol. Mae’r arbrofion hyn yn cynnwys disgyblion yn defnyddio eu medrau mesur a thrin data yn gywir i brofi pa mor dda mae deunyddiau gwahanol yn dal dŵr ac archwilio p’un a all pobl â choesau hirach neidio ymhellach ac yn uwch.

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn foddhaol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant bob tro. Gan amlaf, mae hyn oherwydd nad yw'r disgyblion hyn yn cael digon o gyfleoedd i ddatrys problemau a meddwl drostynt eu hunain, neu oherwydd nad yw'r gwaith yn eu hymestyn ddigon neu'n bodloni eu hanghenion, a'u bod yn ymddieithrio.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ennill ystod ddefnyddiol o fedrau a gwybodaeth mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio TGCh yn hyderus, er enghraifft i ymchwilio i bynciau, recordio gweithgareddau siarad a gwrando a, gyda disgyblion hŷn, datblygu medrau ffotograffiaeth. Mae gwaith ffotograffig disgyblion, sydd o ansawdd uchel, i'w weld mewn arddangosiadau fframiog o amgylch yr ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau datblygu eu medrau creadigol ac yn dod i'w defnyddio'n gymwys mewn ystod eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn ogystal â ffotograffiaeth, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, fel coginio eu rysáit eu hunain ar gyfer tatws a chaws wedi'u pobi a chreu baddon jeli i symbylu chwarae synhwyraidd ar gyfer eu cyfoedion.

Mae medrau corfforol a medrau byw annibynnol disgyblion yn gryfder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol a chorfforol. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 a 3 yn cymryd rhan mewn gwersi nofio yn y ganolfan hamdden leol, ac mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn cwblhau rhaglenni ffitrwydd wythnosol yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau Cymraeg sylfaenol yn eithaf cymwys mewn pynciau gwahanol. Er enghraifft, mewn mathemateg, mae mwyafrif y disgyblion yn adnabod rhifau yn Gymraeg ac yn eu defnyddio i roi eu hatebion yn gywir. Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yn siarad yn hyderus am ystod o destunau yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hyn yn ymestyn eu dysgu bob tro ac yn cyflawni lefelau priodol o achrediad gan fod y ffocws mewn gwersi ar ddeunyddiau sy'n addas ar gyfer Cymraeg ail iaith.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae bron pob disgybl wedi gadael yr ysgol â chymhwyster cydnabyddedig. Yn ystod y cyfnod hwn, bu perfformiad merched yn gryfach na pherfformiad bechgyn, yn gyffredinol, ac ni fu llawer o wahaniaeth rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn meithrin perthynas waith gref â'r staff. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ymdawelu'n gyflym i weithio ar ddechrau'r wers, yn deall arferion yr ystafell ddosbarth yn dda ac yn eu dilyn yn ofalus, ar y cyfan. Mae'r disgyblion hyn yn canolbwyntio'n dda yn ystod gwersi, yn dangos diddordeb ac yn cwblhau eu gwaith yn briodol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymddwyn yn briodol, ar y cyfan, yn ystod gwersi. Wrth iddynt ddysgu mwy am y rhesymau dros eu hymddygiad, maent yn defnyddio mwy o strategaethau sy'n eu helpu'n llwyddiannus i aros yn ddigyffro a pharhau â diddordeb yn eu dysgu. Er enghraifft, os yw ymddygiad disgybl arall yn amharu ar y wers,

mae'r disgyblion hyn yn dangos gwytnwch wrth barhau i ganolbwyntio a chynnal ffocws ar y dasg.

Nid yw ychydig o'r disgyblion iau yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu bob tro. Maent yn tynnu eu sylw eu hunain yn rhy hawdd, ddim yn canolbwyntio ar y dasg ac yn ceisio gadael y dosbarth. Yn aml, mae lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn rhy araf i ymgysylltu â'u dysgu neu ymroi iddo. Mae'r disgyblion hyn yn dangos ymddygiad heriol sy'n tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Mae ychydig o'r disgyblion hyn yn parhau â'r ymddygiad hwn y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac, ar ei waethaf, gall hyn beri pryder i ddisgyblion iau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy y gallant droi os oes angen help arnynt. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion iau yn poeni am ymddygiad gwael ychydig o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau gweithgareddau ar brynhawn dydd Gwener, sy'n cynnwys badminton, sboncen a sgrialu. Trwy gydweithio â staff, bu disgyblion yn llwyddiannus wrth godi arian i ddodrefnu ystafelloedd ffitrwydd newydd yr ysgol gan ddefnyddio beiciau ymarfer corff i feicio 1,400 cilometr, sy'n gyfwerth â hyd llwybr arfordir Cymru. Mae'r ystafelloedd ffitrwydd hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan ddisgyblion o oedrannau gwahanol.

Mae'r cyngor ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, gwnaeth aelodau'r cyngor ysgol gyfraniad cadarnhaol i drafodaethau ynghylch nodi gwerthoedd newydd yr ysgol. Mae'r gwerthoedd hyn, sef ymddiriedaeth, parch, positifrwydd, gonestrwydd a pherthnasoedd, i'w gweld ar waliau i gwmpas yr ysgol erbyn hyn, ac mae disgyblion yn cyfeirio atynt â balchder.

Trwy'r cwricwlwm ac ystod o weithgareddau, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o ddiwylliannau a thraddodiadau gwahanol. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ystyriol o'i gilydd ac yn awyddus i helpu pobl eraill sy'n llai ffodus na nhw. Er enghraifft, yn ystod gwers canŵio ddiweddar yng nghyfnod allweddol 4, gweithiodd disgyblion yn arbennig o dda fel tîm i achub Daisy, sef ci labrador a oedd wedi syrthio i afon a oedd yn llifo'n gyflym. Cysylltodd y disgyblion â thîm lleol Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a throsglwyddo Daisy iddo er mwyn iddi gael ei dychwelyd i'w pherchnogion.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cynhwysol ac ymaddasol sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n addas ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn ategu eu cynnydd a'u lles yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cwricwlaidd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu profiadau dysgu drwy ystod o weithgareddau symbylol. Mae'r rhain yn cynnwys addysg yn yr awyr agored, cysylltiadau ag addysg bellach i gymryd rhan mewn hyfforddiant galwedigaethol fel adeiladu, ac yng nghanolfan gyfryngau S4C, lle mae

disgyblion yn dysgu am roboteg a chodio. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwella medrau bywyd ac arweinyddiaeth disgyblion ac yn eu galluogi i ennill dyfarniadau achrededig, fel hyfforddi chwaraeon, Gwobr Dug Caeredin a thystysgrifau BTEC. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth lleoliad gwaith arbennig o fuddiol i ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth hon yn cysylltu'n agos ag anghenion a diddordebau unigol disgyblion, fel amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau allgyrsiol gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion, fel ymweliadau â Pharc y Scarlets a Stadiwm Liberty.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn ei dyddiau cynnar. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cynnal archwiliad medrau ac wedi cymryd camau priodol i ymgorffori'r fframweithiau cenedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn pynciau gwahanol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno ychydig o gyfleoedd creadigol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, fel darllen ar goedd i Merlin y ci. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes gan yr ysgol ddull cwbl gydlynol i sicrhau bod disgyblion yn caffael y medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh sydd eu hangen arnynt i ategu eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Nid yw athrawon yn ymgorffori cyfleoedd gwerthfawr a blaengar yn ddigon rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau ystyrlon mewn gwersi. Yn benodol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu estynedig mewn pynciau gwahanol, sy'n llesteirio eu cynnydd yn y maes hwn.

Mae'r berthynas waith gadarnhaol a chefnogol rhwng athrawon a disgyblion yn nodwedd gref o addysgu yn Ysgol Rhydygors. Mae athrawon yn adnabod disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion emosiynol. Mae'r nodweddion cryf hyn yn helpu llawer o ddisgyblion i ddatblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth yn eu staff addysgu. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn magu hyder, yn dangos parodrwydd i roi cynnig ar dasgau newydd a mwy heriol, a chymryd risgiau pwyllog a synhwyrol.

Ym mron pob dosbarth, mae athrawon yn cydweithio'n dda â hyfforddwyr dysgu i wella ansawdd addysgu a dysgu. Gyda'i gilydd, maent yn ddelfryd ymddwyn gadarnhaol ac yn cydweithio'n effeithiol â disgyblion, yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gyson bob tro a, phan fydd hyn yn digwydd, mae'n arwain at aflonyddwch a chynnydd cyfyngedig.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn ei defnyddio'n gymwys i sicrhau bod eu cynllunio yn bodloni'r mwyafrif o anghenion disgyblion. Yn ystod dosbarthiadau, mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i gymell disgyblion i alw i gof ac asesu eu dealltwriaeth. Mae'r dull hwn yn arbennig o effeithiol pan fyddant yn gweithio â disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw adnoddau addysgu a dysgu yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol bob tro. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae hyn oherwydd nad yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer anghenion dysgu a galluoedd gwahanol y disgyblion. Yn y dosbarthiadau hyn, mae hyn yn golygu nad yw'r gwaith yn cynnig her addas i bob un o'r disgyblion ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a hyfforddwyr dysgu yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac anogol i ddisgyblion i archwilio lefel eu dealltwriaeth, ennyn eu hatebion a datblygu eu gwybodaeth ymhellach. Mae'r adborth hwn yn helpu disgyblion i ddeall pa mor dda maent yn cyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud yng nghamau nesaf eu

dysgu. Fodd bynnag, yn llyfrau'r disgyblion, mae adborth yn aml yn rhy gyffredinol ac nid yw'n eu helpu i wella eu gwaith yn ddigon da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn olrhain a monitro ymddygiad disgyblion yn effeithlon ac yn darparu targedau perthnasol ar gyfer gwella. Mae'r cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol ar gyfer disgyblion unigol yn gadarn. Maent yn dangos dealltwriaeth sicr o natur gymhleth anghenion pob disgybl ac yn datgan yn glir sut i'w cynorthwyo orau, yn enwedig pan fydd eu hymddygiad yn heriol. Mae strategaethau cymorth perthnasol yn annog staff i helpu disgyblion i feddwl cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau o ymddygiad heriol, ac yn cynnwys ffocws addas ar amser i adfer a meithrin perthnasoedd.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cofnodi ac olrhain ymddygiad yn addas. Mae dadansoddiad arweinwyr o dueddiadau ymddygiad yn dechrau nodi lle mae nifer uchel o ddigwyddiadau, amseriad a math y digwyddiadau hyn, a sut i'w gostwng. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer dadansoddi a rheoli ymddygiad gwael wedi cael digon o effaith ar wella ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion. Ar ben hynny, nid oes digon o drylwyredd bob tro o ran sut mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn cael ei defnyddio, fel nifer yr achosion o ymdrin â digwyddiadau yn gadarnhaol, i gynllunio i leihau ymddygiad heriol a mesur effaith lawn strategaethau ymddygiad yr ysgol.

Mae cymuned yr ysgol wedi cydweithio'n llwyddiannus i sefydlu sylfaen gref o werthoedd sydd â ffocws ar anogaeth i gynorthwyo dysgu a datblygu disgyblion. Mae proffiliau un-tudalen cyfannol disgyblion a'u cynlluniau datblygu unigol yn cyfrannu'n gryf at yr ethos hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae perthynas waith fuddiol yr ysgol â rhieni a gofalwyr yn eu helpu i gynorthwyo â dysgu eu plentyn ac yn gwella eu hymddygiad yn sylweddol. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnwys yr ysgol yn helpu rhieni a gofalwyr i fynychu rhaglenni cymorth teulu gwerthfawr iawn, a chynnig cyfle estynedig i ddisgyblion fanteisio ar glybiau ar ôl ysgol a chyfleusterau gofal. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni a gofalwyr i gynorthwyo eu plant yn ystod y gwyliau hefyd. Mae'r fenter hon yn helpu i gynnal perthynas waith effeithiol â disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau diwylliannol â gweithgareddau fel gwibdeithiau trefnedig a mynychu digwyddiadau chwaraeon lleol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ystod o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth seicoleg addysg, gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion cyswllt cymunedol yr heddlu, er budd y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r galw am ddarpariaeth therapiwtig arbenigol yn fwy na'r hyn sydd ar gael, ac nid yw anghenion disgyblion yn cael eu bodloni bob tro. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig nifer o fentrau therapiwtig mewnol, ond dim ond megis dechrau cael ei monitro y mae effaith y datblygiadau diweddar hyn.

Mae disgyblion yn elwa ar allu manteisio ar ystod gynhwysfawr o weithgareddau corfforol fel rhan o bwyslais yr ysgol ar hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o ddisgyblion yn ymarfer yn ystafell ffitrwydd newydd yr ysgol a darpariaeth ddysgu awyr agored gyffrous i ffwrdd o'r safle, fel arfordira a chanŵio. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau beicio, naill ai yn yr ystafell ffitrwydd neu ar y ffordd, ac mae rhoi cynllun cynnal a chadw beiciau ar waith yn ddiweddar iawn yn ennyn diddordeb mawr ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn cynnig trefniadau addas i

ddisgyblion ddod yn ddinasyddion gweithredol ac ysgwyddo cyfrifoldebau, fel dod yn gynrychiolwyr y cyngor ysgol a chymryd rhan yng Nghynllun Gwobr Dug Caeredin.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn rhoi'r cwricwlwm personol, cymdeithasol ac emosiynol ar waith yn gyson i alluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth addas o ddiwylliannau a thraddodiadau gwahanol, a helpu pobl eraill. Mae disgyblion yn defnyddio'r wybodaeth hon yn eu gwaith elusennol, fel cefnogi Young Minds a gofal canser Macmillan.

Mae natur yr anawsterau y mae disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn eu hwynebu yn golygu y gall bron pob un o'r disgyblion gael trafferth meithrin perthnasoedd cadarnhaol. Fodd bynnag, mae dulliau adferol yr ysgol yn annog disgyblion y fyfyrio'n llwyddiannus ar effaith eu gweithredoedd a chanolbwyntio ar strategaethau sy'n darparu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ailadeiladu perthnasoedd ystyrlon.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Ers iddi gael ei phenodi ym Medi 2018, mae'r pennaeth dros dro wedi darparu arweinyddiaeth weladwy a hawdd mynd ati i'r ysgol. Mae cyfathrebu a chydweithio â staff a rhieni wedi cryfhau'n nodedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwelliant hwn wedi ei galluogi i gydweithio'n llwyddiannus â disgyblion, staff a rhieni i greu gweledigaeth newydd ar y cyd a chyfres o werthoedd ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, mae natur trefniadau prifathrawiaeth dros dro yr ysgol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi rhwystro'r ysgol rhag gwneud gwelliannau pwysig, fel datblygu'r adeilad i fodloni anghenion disgyblion yn well.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno amserlen ddiwygiedig addas o weithgareddau monitro i werthuso perfformiad yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu arweinwyr i ddeall cryfderau a diffygion yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr wedi nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu ac wedi adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau yn effeithlon. Mae'r dull hwn yn helpu'r ysgol i gymryd camau priodol i dargedu meysydd â blaenoriaeth y mae angen eu gwella, er enghraifft drwy newid y trefniadau addysgu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn llwyddiannus i ddarparu dull thematig sy'n bodloni anghenion disgyblion yn well.

Mae gwelliannau eraill yn mynd rhagddynt ond yn eu camau cynnar, ac nid ydynt wedi cael amser i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i berfformiad a lles disgyblion. Er enghraifft, dim ond megis dechrau mapio medrau disgyblion yn erbyn y fframweithiau cenedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol y mae athrawon. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr afael digon clir o unrhyw fylchau mewn darpariaeth i gynllunio'n gadarn i ddatblygu medrau disgyblion a'u cynnydd ar draws yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi mireinio trefniadau i reoli perfformiad staff. Erbyn hyn, mae cylch perthnasol ar gyfer y gweithgareddau hyn. Mae amcanion perfformiad staff a'u targedau yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae staff yn cydnabod yr angen i gymryd camau defnyddiol i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am ddatblygiadau sy'n dylanwadu ar eu harfer broffesiynol. Yn ogystal â

dysgu proffesiynol yn yr ysgol, mae llawer o staff yn dechrau meithrin cysylltiadau defnyddiol ag ysgolion a sefydliadau eraill i ddysgu am arfer dda a chynnwys syniadau newydd yn eu gwaith. Er enghraifft, mae sawl aelod staff wedi ymweld ag uned drawma i nodi arfer effeithiol mewn rheoli ymddygiad a chymorth therapiwtig.

Mae’r corff llywodraethol yn rhoi cyngor a chymorth o ansawdd uchel i’r ysgol. Mae llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o lawer o faterion pwysig yn yr ysgol. Maent wedi meithrin cysylltiadau defnyddiol â’r staff sy’n gyfrifol am bynciau a meysydd dysgu, ac yn cynnal teithiau dysgu i ddatblygu eu dealltwriaeth o’u gwaith. Maent yn dechrau dwyn arweinwyr i gyfrif am wella agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae llawer o lywodraethwyr yn defnyddio eu medrau proffesiynol a’u harbenigedd yn effeithiol i gynorthwyo gwaith yr ysgol. Maent yn cymryd camau defnyddiol, yn ôl yr angen, i geisio sicrhau gwelliannau, fel cael eglurhad o gynlluniau’r awdurdod lleol ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli adnoddau’r ysgol yn dda. Mae eu rheolaeth ddarbodus o gyllid dros y tair blynedd diwethaf wedi mantoli cyllideb yr ysgol yn dilyn diffyg sylweddol. Mae nifer briodol o athrawon a hyfforddwyr dysgu, ac mae’r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arbenigedd staff a’r amgylchedd dysgu yn bodloni anghenion cymhleth disgyblion yn ddigon da bob tro, ac nid yw rhannau penodol o’r ysgol yn addas nac yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol. Er enghraifft, nid oes mynediad boddhaol i disgyblion allu manteisio ar amgylchedd dysgu awyr agored, ac mae’r adeiladau a’r cyfleusterau ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 4 yn rhy agos at ei gilydd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle y bo'n briodol
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau,
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2020